# Y Pwyllgor Cyllid

**FIN(3)-15-10 : Papur 2a**

## Goblygiadau Ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) - Tystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog dros Blant - Gwybodaeth bellach gan y Dirpwry Weinidog

### Cyflwyniad

1. Darperir y papur hwn er mwyn helpu'r Pwyllgor wrth iddo ystyried y Mesur arfaethedig ynghylch Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru). Mae'r papur yn darparu gwybodaeth ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r prif ddyletswyddau yn y Mesur arfaethedig a dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r wybodaeth a gyhoeddwyd yn y Memorandwm Esboniadol.

### Cefndir Polisi

2. Nod y Mesur arfaethedig yw datblygu'r ymrwymiad polisi a wnaed i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn 2004 a'r Polisi Saith Nod Craidd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002. Mae'r Mesur arfaethedig yn anelu at sicrhau y caiff Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ei ystyried fwy fwy mewn deddfwriaeth a pholisïau yng Nghymru ac mae'n gwneud hynny drwy nifer o ddyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru.

3. Mae'n ymateb i'r datganiad deddfwriaethol a wnaed gan y Prif Weinidog blaenorol ym mis Gorffennaf 2009 a hefyd i Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2008), Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a Sylw Cyffredinol Rhif 5.

### Dyletswyddau ar Weinidogion Cymru

4. Mae'r Mesur arfaethedig yn creu nifer o ddyletswyddau. Mae'r holl ddyletswyddau ar Weinidogion Cymru ac nid oes unrhyw ddyletswydd uniongyrchol ar unrhyw unigolyn, sefydliad nac awdurdod cyhoeddus arall. Cynigir tair prif ddyletswydd yn y Mesur:

    - Dyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Prif Weinidog i roi sylw *dyledus* i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. At ddibenion y Confensiwn, ystyr "plant" yw'r rheini sy'n iau na 18 oed.

- Dyletswydd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch y Confensiwn

- Dyletswydd i greu Cynllun Plant, ymgynghori arno a'i osod ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y dadansoddiad ariannol hwn yn canolbwyntio ar y tair dyletswydd uchod. Ceir dyletswyddau ychwanegol yn y Mesur arfaethedig megis adrodd ar sut y cydymffurfiwyd â’r ddyletswydd sylw dyledus. Fodd bynnag, mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau hyn naill ai wedi'u cynnwys o fewn y tair dyletswydd fwy neu mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu hariannu ar hyn o bryd.

## Costau

5. Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a Phrif Weinidog Cymru. Y brif ddyletswydd ar Weinidogion Cymru a Phrif Weinidog Cymru yw rhoi sylw *dyledus* i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'i Brotocolau Dewisol, wrth wneud penderfyniadau strategol am sut i arfer swyddogaethau sy'n arferadwy ganddynt. Felly mae costau cysylltiedig y cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â'r system sydd ei hangen i roi gofynion y ddyletswydd "sylw dyledus" hon ar waith ac i sicrhau y caiff ei gweithredu yn y ffordd fwyaf cadarn bosibl a fydd yn sicrhau y cyflawnir y nod polisi o sicrhau y caiff y Confensiwn ei ystyried gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth wneud polisïau, llunio y rhan fwyaf o gynigion deddfwriaethol a gwneud penderfyniadau strategol a sicrhau bod risg gyfyngedig y caiff y penderfyniadau a wneir eu herio'n gyfreithiol.

6. Mae'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn opsiwn 2 yn ymwneud â chyfnod gweithredu tair blynedd. Mae rhai o'r costau a nodir yn ymwneud â chostau datblygu untro, cynhyrchu deunyddiau hyfforddi ac adnoddau gweithredu ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Mae costau’r drydedd flwyddyn yn cynnwys costau’r flwyddyn gyntaf o gydymffurfio â’r ddyletswydd.

7. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ddyletswydd arfaethedig o dan Adran 5 y Mesur arfaethedig sy’n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau priodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â’r Confensiwn ymhlith y cyhoedd. Y rheswm am hyn yw bod y ddyletswydd yn y Mesur hwn yn ffurfioli ymrwymiadau blaenorol a wnaed o dan erthygl 42 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'r rhaglen waith sy'n cael ei datblygu o dan gynllun gweithredu Gwneud Pethau'n Iawn y Confensiwn gyda chyllid o tua £300,000 wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith hwn ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid ydym yn rhagweld yr eir i unrhyw gostau ychwanegol.

8. Yn yr un modd, nid yw'r cyfrifiadau hyn yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol o ran rhoi'r dyletswyddau perthnasol ar waith wrth ddatblygu polisïau unigol a darnau unigol o ddeddfwriaeth, ar ôl cynnal proses y ddyletswydd “sylw dyledus”. Rhagwelir y bydd yr ystyriaethau hyn yn dod i law wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth newydd ac y cânt eu hystyried o fewn y cwmpas cyllido perthnasol fydd ar gael ac i'r graddau y bydd yr adnoddau ar gael.

**Staffio Canolog**

9. Mae'r tasgau allweddol sy'n gysylltiedig â datblygu â gwaith ar y Mesur arfaethedig fel a ganlyn:

- Creu seilwaith priodol o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- Datblygu deunyddiau hyfforddi ar y darpariaethau yn y Mesur a'r goblygiadau ar gyfer arferion gweithio cyfredol;
- Datblygu adnoddau sgrinio ac asesu effaith a'u profi;
- Darparu cyrsiau hyfforddiant o ran monitro sut y cyflawnir y dyletswyddau;
- Datblygu'r Cynllun ac ymgynghori arno, ei ddadansoddi a datblygu'r cynllun terfynol i'w gymeradwyo;
- Ymgynghori ar gynigion ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed, dadansoddi'r ymatebion a datblygu unrhyw ofynion a fydd yn deillio o hynny;
- Gweithredu ar ymateb i'r cynigion 18-25;
- Datblygu, rhoi ar waith a phrofi effeithiolrwydd trefniadau cydymffurfio, monitro a gwerthuso ar gyfer y Mesur a'r Cynllun;
- Datblygu trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar gydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus a'u rhoi ar waith, a diwygio ac ail-lunio'r cynllun;
- Rhoi cyngor a chymorth arbenigol i swyddogion polisi ymhob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru gan ganolbwyntio'n bennaf ar unedau busnes;
- Parhau i ddatblygu hyfforddiant ac adnoddau mewn ymateb i angen;
- Trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn;
- Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer y Cynllun a, maes o law, integreiddio'r cynllun hwnnw a'r cynlluniau gweithredu a ddatblygir mewn ymateb i setiau o Sylwadau Terfynol yn y dyfodol yn dilyn archwiliad rheolaidd gan y Confensiwn o gynnydd Plaid Wladwriaethol y DU;
- Monitro effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw dyledus yn barhaus. Trefniadau rheoli ansawdd er mwyn sicrhau bod systemau ymhob rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu rhoi ar waith a'u cyfryngu'n effeithiol.

10. Mae'r costau staffio[1] yn seiliedig ar y gofynion i gyflawni'r tasgau uchod. Nodir y costau hyn yn y Memorandwm Esboniadol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| 2010/11 | £ 209,000 |
| 2011/12 | £ 279,000 |
| 2013/14 | £ 272,000 |

11. Ystyrir ar hyn o bryd bod y ffigurau hyn yn cynrychioli'r amcangyfrif uchaf ar gyfer costau yn y maes hwn a rhagwelir y bydd gostyngiad bach yn y costau staffio canolog yn 2013/14, sef gostyngiad o £7000 wrth i'r broses gydymffurfio ddechrau gael ei sefydlu fel rhan o arferion gweithio. Rhagwelir y bydd y costau hyn yn parhau i ostwng yn ystod y blynyddoedd dilynol o ganlyniad i waith i gysoni'r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn erbyn y cynllun plant ac, yn y pen draw, eu hintegreiddio'n llawn â gwaith cyflwyno adroddiadau a chynlluniau gweithredu presennol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

## Costau Datblygu Gofynnol o ran Rhoi'r Mesur Arfaethedig Ar Waith

12. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar yr angen i ddatblygu pecynnau hyfforddi ac adnoddau asesu effaith yn seiliedig ar hawliau'r plentyn. Defnyddir yr adnoddau hyn gan swyddogion i ystyried sut y mae erthyglau o fewn y Confensiwn yn berthnasol i'w gwaith (yn unigol a chydag eraill), sut y gallant sicrhau effaith bellach/mwy o effaith iddynt o fewn y polisi, y ddeddfwriaeth neu benderfyniad strategol arall sy'n cael eu datblygu ac i roi tystiolaeth i ddangos sut maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus".

13. Bydd angen datblygu'r pecyn cymorth asesu effaith (cyfres o adnoddau) gan ystyried meysydd megis deddfwriaeth, polisi, cyllidebu ac ati er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd 'sylw dyledus'. Byddant yn darparu strwythur i'w ystyried ac yn egluro unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau sydd wedi deillio o roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau sylweddol o fewn y Confensiwn a'i brotocolau dewisol.

14. Bydd angen i'r broses o ddatblygu adnoddau asesu effaith a'r hyfforddiant a fydd yn gysylltiedig â hwy fanteisio ar arbenigedd allanol ar y materion hyn a bydd yn cynnwys arbenigedd allanol ehangach er mwyn darparu sicrwydd ac eglurder ar y broses a ddefnyddir i roi 'sylw dyledus' ar waith. Amcangyfrifir mai costau datblygu'r ddau adnodd asesu effaith a ragwelir fydd £50,000 yr un yn seiliedig ar brosiectau ymchwil tebyg ar raddfa fach.

[1] Cyfrifwyd costau staffio gan ddefnyddio costau bandiau cyfartalog ar gyfer staff ar gyfer eu graddau perthnasol.

15. Bydd angen hyfforddi swyddogion er mwyn iddynt ddeall yr hawliau a’r goblygiadau yn y Confensiwn, a’r broses y mae’n rhaid iddynt ei dilyn er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd ‘sylw dyledus’. Amcangyfrifwyd y costau hyn yn seiliedig ar y costau a oedd yn gysylltiedig â datblygu, ysgrifennu a phrofi cyfres ddiweddar o gyrsiau cyfranogi (Erthygl 12) ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cost y datblygiad hwn oedd £15,000.

16. Bydd cyrsiau hyfforddi a nodwyd ac a gostiwyd yn cynnwys:

a. Cyflwyniad cyffredinol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC): Bydd y cwrs 2-3 awr hwn yn darparu cyflwyniad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a'i erthyglau. Bydd yn ymdrin â hanfodion cynnwys y cyd-destun polisi yng Nghymru, y Mesur ac yn darparu enghreifftiau o sut y gellir adlewyrchu hyn yn ymarferol. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i'r rheini a fydd yn cymryd rhan ystyried sut y mae erthyglau'r Confensiwn yn berthnasol i'w gwaith.

b. Cynnal Asesiad Effaith ar Bolisi a Deddfwriaeth er mwyn Cydymffurfio â'r ddyletswydd 'sylw dyledus': Bydd y cwrs hwn yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r ddeddfwriaeth a'r adnodd asesu effaith polisi a sut y gellir ei gymhwyso yng nghyd-destun penderfyniadau strategol. Bydd yn ymdrin â nifer o gamau yn y broses feddwl a pha dasgau y mae angen ymgymryd â hwy er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd 'sylw dyledus'.

c. Cynnal Asesiad Effaith ar Gyllidebau: Bydd y cwrs hwn yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r adnodd asesu trefniadau cyllidebu Plant a Phobl Ifanc a sut y gellir ei gymhwyso yng nghyd-destun penderfyniadau strategol. Bydd yn ymdrin â pha dasgau y mae angen ymgymryd â hwy er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd 'sylw dyledus' mewn perthynas ag Erthygl 4 y Confensiwn a gwaith ehangach sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn.

ch. Caiff hyfforddiant arbenigol penodol ychwanegol ei ddatblygu ar gyfer staff gwasanaethau cyfreithiol er mwyn sicrhau y gallant ddarparu'r cyngor cyfreithiol angenrheidiol. Dyrannwyd swm o £20,000 i gefnogi'r datblygiad hwn.

d. Mae gwaith parhaus pellach yn mynd rhagddo i archwilio union gynnwys a manylion y cyrsiau hyn a dyrannwyd swm ychwanegol o £15,000 er mwyn caniatáu ar gyfer unrhyw hyfforddiant arbenigol arall a nodir efallai fel rhan o'r gwaith ar gydymffurfiaeth.

## Costau Cyfleoedd

17. Rydym wedi defnyddio'r term 'costau cyfleoedd' i helpu i ddiffinio sut yr ystyriwyd y costau staffio ychwanegol ac amser staff mewn perthynas â'r dyletswyddau yn y Mesur. Mae 'cost cyfleoedd' yn derm ac yn gysyniad economaidd a ddefnyddir yn helaeth.

18. Yn yr achos hwn, y costau cyfleoedd yw cost amcangyfrifedig amser staff y byddai ei angen i gydymffurfio â'r dyletswyddau yn y Mesur a meintoliad hyn, o gymharu â'r cyfle i staff ymgymryd â thasgau eraill na fyddai fel arfer yn ofynnol i'r staff hynny ymgymryd â hwy.

## Costau Cyfleoedd Amcangyfrifedig ar gyfer Cynnal Hyfforddiant

19. O fewn y cyrsiau hyfforddi a nodwyd, mae dau fath o gwrs hyfforddi ac rydym wedi cyfrifo'r costau ar wahân ar gyfer pob cwrs. Mae'r math cyntaf o gwrs yn gwrs cyffredinol, ar gyfer pob gradd ac yn orfodol. Mae'r ail fath o gwrs wedi'i dargedu at raddau penodol a bydd hefyd yn orfodol. Bydd yn ymwneud â chynnal yr asesiad effaith a fydd yn ofynnol er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus".

20. Yn y ddau achos, rydym wedi amcangyfrif y gost yn seiliedig ar y niferoedd perthnasol o staff ar y graddau perthnasol, hyd amcangyfrifedig y cwrs mewn oriau a'r gost gyfartalog berthnasol fesul awr ar gyfer y staff hynny. Mae hyn yn rhoi cost cyfleoedd i ni mewn perthynas â chynnal yr hyfforddiant sy'n ofynnol.

21. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), caiff y cyflwyniad cyffredinol i'r Confensiwn, a fydd tua 3 awr o hyd, ei gyflwyno i dair gradd o staff, sef cyfanswm o 1625 o aelodau o staff. Rhagwelir mai costau cyfleoedd y cwrs hwn fydd £131,000.

22. Caiff y systemau manwl a gaiff eu rhoi ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Mesur arfaethedig eu targedu'n benodol at un radd o uwch reolwyr, sef y rhai a fydd yn cynnal yr asesiadau gofynnol mewn gwirionedd. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y timau y maent yn eu rheoli yn cyflawni'r broses yn briodol. Cyfrifwyd y costau cyfleoedd yn seiliedig ar ddarparu chwe awr o hyfforddiant i 635 o aelodau o staff am gost cyfleoedd amcangyfrifedig o £159,000.

## Costau Cyfleoedd Amcangyfrifedig ar gyfer Cyflawni'r Gofynion Ychwanegol i Ystyried y Ddyletswydd "Sylw Dyledus"

23. Nodwyd y costau hyn gan ystyried y gwaith a ragwelir gan swyddogion i fodloni gofynion y ddyletswydd "sylw dyledus" yn ystod blwyddyn tri. Bydd y rhain yn dibynnu ar ddatblygu'r adnoddau asesu effaith y bydd hefyd angen eu profi cyn y gall swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru eu defnyddio. Nodwyd y costau cyfleoedd o ddata hanesyddol a thrwy gymryd sampl fach o gyflwyniadau blaenorol i Weinidogion. Darparodd y sampl fach hon o gyngor polisi ffurfiol a roddwyd i Weinidogion amcangyfrif o 6 awr o amser staff o ran rhoi'r ddyletswydd 'sylw dyledus' ar waith, wrth ddatblygu gwaith o natur strategol. Roedd hyn yn cynnwys y cam datblygu a'r cyflwyniad terfynol i Weinidog. Rhagwelir, wrth i'r broses gydymffurfio ddod yn fwy cyfarwydd, y bydd y

costau hyn yn gostwng yn sylweddol o ganlyniad i natur sefydledig y gofynion i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

24. I gloi, hoffwn bwysleisio ein bod wedi darparu amcangyfrif o'r gost ond na ellir asesu'r gost yn llawn ac yn fanwl gywir ar hyn o bryd, gan y bydd y gost wirioneddol yn dibynnu ar nifer o ffactorau nad ydynt eto'n gwbl hysbys hyd nes y caiff y dyletswyddau eu rhoi ar waith yn llawn. Hoffwn bwysleisio hefyd fod fy swyddogion yn parhau i ystyried sut y gellid cyflawni arbedion maint o fewn y gyllideb amcangyfrifedig bresennol a nodwyd.

**Huw Lewis AC**
**Y Dirprwy Weinidog dros Blant**
**Medi 2010**